

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon I

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Testament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Exodus 16: 1-32

Mae'r stori hon  
yn sôn am:  
**Duw'n darparu  
bwyd i'r Israeliaid**

## Stori I Duw'n rhoi bwyd

Ar ôl bod yn yr anialwch am ychydig wythnosau'n unig, dechreuodd yr Israeliaid gwyno. Roedden nhw'n anhapus iawn erbyn hyn ac fe ddywedon nhw lawer o bethau cas wrth Moses ac Aaron, eu harweinwyr.

"Dylen ni fod wedi aros yn yr Aifft," meddent. "Roedd gyda ni ddigon i'w fwyta yno, ond nawr rydym ni'n llwgu i farwolaeth!"

**Lliwiwch y sgwariau sy'n cynnwys X i ddatgelu enw'r arweinwyr.**



**M X O X S X E X S**

**A X A X R X O X N**

Roedd Duw yn dda wrthyn nhw. Anfonodd fwyd arbennig iddyn nhw o'r Nefoedd. Roedd hwn yn ymddangos bob bore fel cen tenau, gwyn ar y llawr. Dim ond ei gasglu ac yna'i goginio oedd angen ei wneud. Roedd yn blasu'n dda – fel wafferi wedi'u gwneud o fêl!

Rhoddodd yr Israeliaid enw arno. Dyma roedden nhw'n ei alw:-

# Manna.

**Lliwiwch y llythrennau.**

Yn ystod yr holl flynyddoedd y buon nhw yn yr anialwch, roedd bara arbennig Duw yno drwy'r adeg! Dyna dda yw Duw! Mae Ef yn dal i roi llawer o roddion da i ni bob dydd!



DARLLENWCH  
Exodus 17: 8-15

Mae'r stori hon yn

sôn am:

**Duw'n helpu'r  
rhai sy'n  
ymddiried  
Ynddy.**

## Stori 2 Duw'n rhoi buddugoliaeth

Un diwrnod, dechreuodd milwyr o'r enw'r Amaleciaid ymladd yn erbyn yr Israeliaid. Aeth Josua, cynorthwywr Moses, ati ar frys i gasglu byddin ynghyd. I ffwrdd â nhw i ymladd y gelyn. Cyn hir, dechreuodd brwydr fawr.

### Pwy oedd yn gyfrifol am fyddin yr Israeliaid?

J \_\_\_\_ a.


Cydiodd Moses yn ei ffon arbennig a dringodd i ben bryn cyfagos. Aeth Aaron a Hur gydag e. Pan godai Moses ei ffon, roedd yr Israeliaid yn ennill, ond pan roddai'r ffon i lawr, byddai'r Amaleciaid yn dechrau ennill!

Ymhen ychydig, dechreuodd breichiau Moses flino. Gosododd Aaron a Hur ef i eistedd ar garreg fawr. Yna, dyma nhw'n sefyll bob ochr iddo yn dal ei freichiau yn yr awyr.

Gwyddai Duw fod yr Israeliaid yn ymddiried Ynddy i'w cynorthwyo. Aeth y frwydr ymlaen drwy'r dydd, ond cyn iddi nosi, roedd y gelyn wedi'i drechu!

Gallwn ni, hefyd, ddibynnu ar Dduw i'n helpu, os ydym wir yn ymddiried Ynddy.

**Lliwiwch y llun o Moses, Aaron a Hur a llanwch y bylchau gyda'r llythrennau cywir.**



A \_\_\_\_ r \_\_\_\_ n a H \_\_\_\_ r.




DARLLENWCH  
Exodus 19 a 20


Mae'r stori hon  
yn sôn am:  
**Rheolau Duw.**

### Stori 3 Duw'n rhoi gorchmynion

Cyrhaeddodd yr Israeliaid wrth droed mynydd mawr o'r enw Sinai. Aeth Moses i fyny i'r mynydd. Gwelwyd taranau a mellt, yn ogystal â niwl trwchus a thân. Daeth ofn mawr ar bawb.



**Ysgrifennwch enw'r  
mynydd yn y bylchau oddi tano.**



Ond digwyddodd y peth rhyfeddaf - daeth DUW yno i gwrdd â Moses. Rhoddodd Duw Ei gyfreithiau, neu Ei reolau iddo. Roedd y cyfreithiau hyn yn mynd i helpu'r Israeliaid i ddeall sut roedd Duw yn disgylw iddyn nhw ymddwyn. "Y Deg Gorchymyn" yw'r enw a roddwn ni ar y cyfreithiau hyn fel arfer.

Pan fydd gennym neges bwysig i'w rhoi i rywun, byddwn yn ei hysgrifennu bob tro. Dyna beth wnaeth Duw! Ysgrifennodd Ei reolau ar ddwy garreg fawr a'u rhoi i Moses.

Roedd cyfraith Duw yn dweud y dylai'r bobl garu Duw yn fwy na dim byd arall, a'u bod i garu ei gilydd. Does dim un ohonom ni'n gallu cadw cyfreithiau Duw yn berffaith. Mae pob un ohonom wedi methu. Rydym ni'n bechaduriaid yng ngolwg Duw. Ond mae Ef yn ein caru bob un. Rhoddodd Ei Fab, yr Arglwydd lesu, i farw drosom. Ni thorrodd yr Arglwydd lesu unrhyw un o orchmynion Duw. Pan fyddwn yn credu Ynddy Ef, ac yn Ei dderbyn fel ein Gwareddwr, yna bydd Duw yn maddau i ni am dorri Ei orchmynion.

**Lliwiwch y geiriau.**

Y Deg Gorchymyn
1 Na chymher ddewiswsi erall ar wahan i mi.
2 Ni wna i si ddewl gerfledig.
3 Paid â chanddefnyddio Enw Duw.
4 Cadw Dydd Duw yn ddydd urbening.
5 Anrhwydded dy dad a'ch fam.
6 Na ladd.
7 Paid â bod yn anffyddlon.
8 Na ladrata.
9 Paid â dweud colwyddau pobl erall.
10 Paid â chwennych eiddo pobl erall.


“Mae pawb wedi  
pechu.”



DARLLENWCH  
Numeri 21: 4-9

Mae'r stori hon yn  
sôn am:

**Ffordd Duw o  
achub pobl rhag  
marwolaeth**



## Stori 4 Duw'n rhoi iachawdwriaeth

Un diwrnod, dechreuodd yr Israeliaid gwyno. "Pam ddaethoch chi â ni allan o'r Aifft i farw yn yr anialwch?" Does yma ddim bwyd go iawn na dŵr ac mae'n gas gyda ni'r manna yma, "ebe nhw wrth Moses.

Trefnodd Duw fod seirff (nadroedd) gwenwynig yn ymosod arnyn nhw! Cyn pen dim, cafodd llawer o'r Israeliaid eu brathu, ac roedden nhw'n marw. Dyna beth drwg yw cwyno a grwgnach am roddion Duw!

**Ticiwch (✓) y brawddegau 'cywir' a rhowch groes (✗) ar ôl y rhai 'anghywir'.**

Roedd yr Israeliaid yn ddiolchgar i Dduw am Ei holl roddion .....

Ni wnaeth y seirff niwed i neb. ....


Bu farw llawer o'r Israeliaid oherwydd y gwenwyn. ....

Cyn hir, daeth y bobl yn ôl at Moses a dweud wrtho ei bod hi'n flin ganddyn nhw am gwyno. Gofynnnon nhw iddo weddio ar Dduw i gael gwared â'r nadroedd.

Dyweddodd Duw wrth Moses am wneud sarff o fetel. Yna cododd Moses y sarff ar bolyn uchel. Dywedodd wrth bawb oedd wedi'i gnoi, ac yn marw, am edrych ar y sarff, oherwydd roedd Duw wedi addo eu gwella, dim ond iddyn nhw edrych!

Iachawyd pawb a wnaeth yn union fel y dywedodd Duw!

Gallwn ninnau gael ein hachub o'n pechodau pan fyddwn yn ymddiried yn yr Arglwydd lesu gafodd ei ddyrchafu ar y groes.



**Lliwiwch y lluniau a'r geiriau.**

**"Edrychwrch a  
Byddwrch Fyw!"**

10

**Marciau**  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

---

---

---

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhodion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120